



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Adroddiad blynyddol 2017/18

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	2
Cyflwyniad	2
Yr hyn rydym wedi'i gyflawni	4
Yr hyn a ddywedwyd wrthym	10
Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud	11

Atodiadau

1. Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig – Cynllun Cyflawni
2. Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD – Crynodeb o'r Cynllun Gwaith 2018

1. Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig – Adroddiad blynyddol 2017/18

Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad cyntaf hwn ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig 2016 yn ymateb i'n hymrwymiad i ddarparu diweddariad blynyddol ar y cynnydd rydym yn ei wneud. Mae'r adroddiad yn trafod pob un o'r tri maes blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Strategol:

- Asesu a Diagnosis.
- Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth.
- Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Gweithredu Strategol trwy adolygu *Yr hyn rydym wedi'i gyflawni*, ymateb i *Yr hyn a ddywedwyd wrthym ac amlinellu Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud*.

1.2 Mae'r tabl yn atodiad un yn rhoi crynodeb o gynnydd yn erbyn pob cam gweithredu a amlinellir yn y cynllun cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Strategol. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2018 felly, yn y dyfodol, bydd yr adroddiad yn cyd-fynd â blwyddyn weithredol Llywodraeth Cymru, o fis Ebrill i fis Mawrth.

Cyflwyniad

1.3 Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i'r hyn mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Nod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol yw:

Y bydd anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ar y sbectwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles.

1.4 Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol, fe weithion ni gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i nodi rhai themâu blaenoriaeth a chamau gweithredu allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion ag awtistiaeth. Nodwyd tri maes blaenoriaeth.

- Asesu a Diagnosis.
- Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth.
- Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant.

1.5 Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni'r ymrwymadau uchelgeisiol rydym wedi'u gwneud, gan fuddsoddi £13 miliwn mewn gwasanaethau integredig newydd. Rydym yn gwneud cynnydd da ond yn cydnabod y bydd hi'n cymryd amser i gyflawni pob un o'n cynlluniau i wneud gwelliannau tymor hir. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu ein cynnydd, gan weithio gydag asiantaethau cyflawni a phobl awtistig i sicrhau bod y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud yn cyflawni'r canlyniadau mae pobl awtistig eisiau eu gweld.

1.6 Dyma'r cyflawniadau allweddol ym mlwyddyn gyntaf rhoi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar waith:

- Cyflwyno amser aros targed o 26 wythnos am asesiad niwroddatblygiadol, gan gynnwys ASD ar gyfer plant a phobl ifanc. Cychwynnwyd casglu data ym mis Tachwedd 2017.
- Mae llwybrau a safonau diagnostig niwroddatblygiadol a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc ar waith ac wedi'u mabwysiadu gan bob bwrdd iechyd.
- Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Mae ar agor yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent a Phowys, bydd yn agor cyn hir yn y Gogledd a bydd yn cael ei roi ar waith eleni ym Mae'r Gorllewin a'r Gorllewin.
- Cafodd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2017 a bydd yn cael ei rhoi ar waith ddiwedd 2019.
- Rydym wedi sefydlu Grŵp Cyngori ar Weithredu ASD i fonitro cynnydd a gwaith cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol. Mae'r grŵp wedi cyfarfod 5 gwaith.
- Cafodd adroddiad interim y gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018, a bydd y gwerthusiad yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2019.
- Cymorth parhaus ar gyfer Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD, sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol, yn enwedig y gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

2. Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

Gwasanaethau Asesu a Diagnostig

Plant a Phobl Ifanc

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod teuluoedd angen mynediad at wasanaethau asesu a diagnostig amserol a bod amseroedd aros wedi bod yn rhy hir mewn rhai ardaloedd. Ers 2015, mae £2 filiwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu bob blwyddyn i fyrddau iechyd er mwyn sefydlu gwasanaethau pwrpasol i blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys awtistiaeth ac ADHD. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu gan ffrwd waith niwroddatblygiadol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys clinigwyr arbenigol ac sy'n cael ei llywio gan rieni a gofalwyr.

2.2 Cafodd llwybr a safonau diagnostig a gytunwyd yn genedlaethol eu cyhoeddi yn 2016. Datblygwyd y rhain gan glinigwyr i gefnogi darpariaeth gwasanaethau niwroddatblygiadol a mynediad teg atynt yng Nghymru. Disgwylir i fyrddau iechyd fabwysiadu'r llwybrau a chyflwyno adroddiad i'r gweithgor Plant a Phobl Ifanc.

2.3 Mae canllawiau pellach i gefnogi'r llwybr yn cael eu cyhoeddi'r haf hwn, gan gwmpasu swyddogaethau gwasanaethau a chymorth niwroddatblygiadol a chynghori ar sut y gall timau niwroddatblygiadol ddangos ansawdd eu gwasanaethau a gwella eu dealltwriaeth o'r galw cynyddol am asesiadau ac ymyriadau.

2.4 I fonitro gwelliannau, mae safon amser aros newydd o 26 wythnos wedi'i rhoi ar waith i fesur yr amser aros rhwng yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf, yn unol â gwasanaethau pediatriig eraill. Disgwylir y bydd 80% o'r apwyntiadau asesiad cyntaf yn cael eu cynnal cyn pen 26 wythnos. Mae Byrddau Iechyd wedi bod yn adrodd ar y data hwn ers mis Tachwedd 2017 pan sefydlwyd y peilot casglu data. Bydd y cyfnod prawf 12 mis hwn yn galluogi pob parti i fonitro prosesau casglu ac adrodd data er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi a fydd yn effeithio ar ansawdd y data a ddarperir i'r dyfodol. Ar ôl hyn, os yw'r data o ansawdd digonol, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ystadegau Cymru.

Oedolion

2.5 Byddwn yn dysgu gwersi o gyflwyno'r targed ar gyfer plant a phobl ifanc wrth ddatblygu safon amser aros debyg arfaethedig ar gyfer oedolion. Rydym yn cydnabod efallai na fydd sefydlu amser aros syml yn adlewyrchu cymhlethdod llawer o atgyfeiriadau ac, oherwydd yr argymhelliad y dylai asesiadau gael eu cynnal gan asiantaethau amlddisgyblaethol, mae'n gallu cymryd amser i sicrhau mynediad at bob gweithiwr proffesiynol sydd angen bod yn rhan o'r broses. Mae yna gwestiynau hefyd ynghylch mesur ansawdd atgyfeiriadau ac asesiadau, a rhaid i ni allu sicrhau cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar y niferoedd sy'n cael diagnosis a sicrhau bod staff arbenigol yn gallu cynnig cymorth cyn ac ar ôl diagnosis lle bo angen.

2.6 Mae gwasanaeth asesu oedolion newydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) cenedlaethol ym mhob rhanbarth, fel y trafodir isod. Yn ogystal ag annog cydweithio ar draws y rhanbarthau IAS, rydym hefyd wedi sefydlu cymuned ymarfer diagnostig i oedolion i ddwyn ynghyd ymarferwyr arbenigol o bob cwr o Gymru i wella sut rydym yn cyflwyno gwasanaethau diagnostig; mae hyn yn cynnwys datblygu llwybr asesu diagnostig cenedlaethol i oedolion a chefnogi gwelliannau mewn sgiliau diagnostig clinigwyr.

Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth

2.7 Bydd gan blant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u gofalwyr wahanol anghenion cymorth ar wahanol adegau yn eu bywydau ac yn unol â'u galluedd a'u hanghenion. Mae adborth gan randdeiliaid wedi nodi tri maes yn gyson lle mae gwelliannau'n angenrheidiol, lle mae yna fylchau mewn gwasanaethau ar draws yr ystod oedran, sef:

- Trawsnewid addysg anghenion dysgu ychwanegol.
- Cymorth ar gyfer cyflogaeth.
- Iechyd a gofal cymdeithasol.

Trawsnewid addysg anghenion dysgu ychwanegol

2.8 Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n amlinellu system newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn creu fframwaith cyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a fydd yn rhoi dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr wrth graidd y broses o nodi eu hanghenion a chynllunio sut i'w diwallu. Bydd y system newydd yn sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyrraedd ei botensial llawn. Bydd y gwaith o gynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr 0-25 oed ag ADY yn cael ei wella, gan roi blaenoriaeth i anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a chyflwyno ymyriadau amserol ac effeithiol sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae'r rhaglen Trawsnewid ADY yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg i sicrhau cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth a mynediad rhwyddach at gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol.

2.9 Mae Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD yn gweithio i gefnogi ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn ysgolion. Ym mis Mawrth 2016, lanswyd y rhaglen ysgolion cynradd Dysgu gydag Awtistiaeth, sy'n defnyddio dull ysgol gyfan o gefnogi disgyblion ag awtistiaeth. Mae rhaglenni i gefnogi plant ysgol uwchradd a'r blynyddoedd cynnar wedi'u datblygu hefyd. Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen ar wefan ASDinfoWales yn www.asdinfowales.co.uk sy'n cefnogi cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol.

Cymorth ar gyfer Cyflogaeth

2:10 Rydym yn cydnabod bod llawer o oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith a chadw swydd. Fel rhan o'n dull cenedlaethol o wella canlyniadau cyflogaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Cyflogadwyedd yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn gweithredu ar bedair thema gwahanol; darparu cymorth ar gyfer cyflogaeth wedi'i deilwra i'r unigolyn, pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i gefnogi staff, cau bylchau sgiliau a pharatoi ar gyfer marchnad lafur sy'n newid yn aruthrol. Mae cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn yn rhoi ymreolaeth a hyblygrwydd i gynghorwyr fynd i'r afael ag anghenion, cryfderau ac uchelgeisiau'r person sy'n paratoi ar gyfer gwaith.

2:11 Rydym eisiau i raglenni cyflogadwyedd fod yn hygyrch i bawb, ac rydym yn ystyried effaith ein rhaglenni ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig, sy'n gallu cynnwys pobl awtistig, yn ystod y cyfnodau dylunio, cyflwyno a gwerthuso. Byddwn yn cynnal adolygiad cydraddoldebau o'n rhaglenni craidd i sicrhau bod eu gweithrediadau'n gynhwysol ac yn ystyriol o anghenion pobl ag anghenion cymorth ychwanegol.

2:12 Rydym yn cydnabod y bydd strwythurau a diwylliant ehangach gweithleoedd yn cael effaith uniongyrchol ar gyflogadwyedd pobl anabl neu'r rhai â nodweddion gwarchoddedig. Yn y Cynllun Cyflogadwyedd, rydym eisiau cynyddu nifer y cyflogwyr sy'n rhoi pwyslais ar greu gweithleoedd sy'n amgylcheddau cynhwysol a chefnogol i bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd tymor hir. Byddwn yn herio cyflogwyr i feddwl yn greadigol am sut y maent yn dylunio swyddi ac yn recriwtio pobl i'w llenwi. Byddwn hefyd yn gwerthuso ein rhaglen Cymru Iach ar Waith ac yn annog mwy o gyflogwyr i ddarparu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i gefnogi'r rhai sy'n wynebu risg o adael eu gwaith oherwydd iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael.

2:13 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglen Ar y Blaen 2 hefyd, sef rhaglen a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr sy'n targedu pobl ifanc 16-25 oed ag anabledd/anhawster dysgu neu ASD. Mae'r rhaglen yn creu a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth tymor hir i bobl ifanc trwy ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogwyr. Mae'n darparu'r cymorth dwys sydd ei angen ar bobl ifanc i barhau mewn cyflogaeth ystyrllon. Mae gwybodaeth fanylach am y rhaglen ar y wefan www.engagetochange.org.uk

2:14 Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu targed i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n gweithio. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol i greu'r targed hwn ac yn parhau i ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i roi'r camau yn y cynllun ar waith yn fwy eang.

2.15 Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle; rydym yn cyflwyno'r rhaglen Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth ac rydym wedi sefydlu grŵp cymorth staff ar gyfer cydweithwyr awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr i'n helpu ni i addasu ein gweithle i ddiwallu eu hanghenion.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol (IAS)

2:16 Yr ymrwymiad canolog yn y Cynllun Gweithredu Strategol yw datblygu a chyflwyno Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd a gefnogir gan fuddsoddiad o £13 miliwn hyd at 2021. Mae cyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn wedi ein galluogi i ddatblygu llawer o'r ymrwymadau yn y Cynllun Gweithredu Strategol.

2:17 Mae'r IAS yn ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau a nodir gan bobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae'r dull wedi'i gyflwyno fesul cam gyda chefnogaeth Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD. Mae ar agor nawr yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent a Phowys, bydd yn agor cyn hir yn y Gogledd ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu yn y Gorllewin ac ym Mae'r Gorllewin gyda'r nod o agor yn ddiweddarach y flwyddyn weithredol hon. Mae manylion cyswllt gwasanaethau lleol ar gael ar wefan ASDinfowales. (www.asdinfowales.co.uk)

2:18 Mae'r IAS yn defnyddio dull cenedlaethol o ddarparu cymorth a gwasanaethau i bobl awtistig. Mae'n wasanaeth newydd sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol ac mae'n dwyn ynghyd ymarferwyr arbenigol gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau mewn cymorth. Mae'n un elfen yn unig o wasanaethau statudol a gwirfoddol a ddylai fod ar gael i bobl awtistig yn eu hardaloedd lleol. Mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid bod gwasanaethau awtistiaeth yn gallu bod yn anghyson mewn gwahanol rannau o Gymru, rydym wedi rhoi model cenedlaethol cyffredinol ar waith sy'n gallu darparu gwasanaethau diagnostig i oedolion a chymorth ychwanegol i oedolion, plant a rhieni i ddarparu cymorth wedi'i deilwra os nad yw wedi bod ar gael, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael gwasanaethau statudol. Mae'r IAS yn gallu darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i wasanaethau eraill i'w galluogi i wella eu gwybodaeth a'u profiad fel y gallant ddarparu cymorth wedi'i addasu i bobl awtistig yn eu maes arbenigol.

2:19 Mae cyflwyno'r gwasanaeth newydd fesul cam wedi bod yn dasg heriol a chyffrous. Mae'r Gwerthusiad Annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol wedi adolygu cyfnod cyntaf y gwaith cyflwyno ac wedi nodi i'r gwasanaeth gael derbyniad gwresog, ond bod gwahanol weledigaethau ar gyfer y gwasanaeth ar draws y rhanbarthau ar y cychwyn. Gan fod y gwasanaeth wedi'i sefydlu yn y rhanbarthau cyntaf ac yn cael ei ddatblygu yng ngweddill yr ardaloedd, rydym yn elwa ar gronfa gynyddol o staff arbenigol sy'n cydweithio a chyd-gynhyrchu gyda phobl awtistig i geisio sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaeth. Rydym wedi sefydlu grŵp Swyddogion Arweiniol IAS cenedlaethol i alluogi'r timau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r gwasanaeth ar lefel genedlaethol, ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn ymateb i adborth gan gyfranogwyr fel ei fod yn darparu'r cymorth mae pobl awtistig ei eisiau ac yn sicrhau bod capasiti i ddarparu gwasanaeth a arweinir gan anghenion. Rydym eisoes yn derbyn adborth cadarnhaol ar effaith y gwasanaeth ac

yn datblygu astudiaethau achos y byddwn yn eu cyhoeddi fel rhan o'r gwaith o werthuso'r gwasanaeth.

2:20 Trwy ddatblygu'r IAS, daeth hi'n glir bod rhaid meithrin a chynnal cysylltiadau agos ag asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth, yn enwedig gwasanaethau anabledau dysgu, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol, a gyda sefydliadau trydydd sector hanfodol sy'n cynnig cymorth. Byddwn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau trwy hyrwyddo cydweithio a byddwn yn datblygu llwybrau ymyrraeth i sicrhau bod pob asiantaeth sy'n darparu cymorth i bobl awtistig yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu system ddi-dor ac integredig.

Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD

2:21 Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol ASD cyntaf a gyhoeddwyd yn 2008 yn hynod lwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a chyflawnwyd hyn trwy gefnogi gwaith Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD. Mae'r tîm hwn wedi gweithio gydag ymarferwyr a phobl awtistig i ddatblygu ystod eang o adnoddau a rhaglenni hyfforddi uchel eu clod i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar draws llawer o wasanaethau ac yn y gymuned. Mae'r adnoddau hyn ar gael am ddim ar wefan ASDinfowales, a bydd llawer ar gael trwy swyddogion arweiniol a gwasanaethau lleol. Mae mwy o wybodaeth am y deunyddiau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales.

www.asdinfowales.co.uk

Mae enghreifftiau o'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys:

- Yr ymgyrch Weli Di Fi?, sy'n annog cymunedau i ddeall a derbyn awtistiaeth fel bod pobl awtistig a'u teuluoedd yn llai tebygol o gael eu hallgáu neu wynebu stigma.
- Y Rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac adnoddau blynyddoedd cynnar.
- I ymateb i anawsterau posibl yn y gweithle, mae'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth yn ceisio gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith cyflogwyr fel eu bod mewn sefyllfa well i wneud addasiadau i helpu pobl awtistig i fwynhau gyrfaedd llwyddiannus.

2:22 Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol hefyd wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol y gellir ei weld ar wefan ASDinfowales. Mae'n dangos yr amrywiaeth o waith mae'r tîm wedi'i gyflawni. Yn 2017-18, edrychwyd ar y wefan 509,058 o weithiau, a denwyd 112,008 o ymwelwyr i'r wefan.

2:23 Mae'r tîm yn cynnal pob math o gynlluniau hyfforddi a, thros y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi'u cyflwyno ledled Cymru a bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2018/19. Maent yn cynnwys:

- Cynllun ymwybyddiaeth o awtistiaeth: cwblhaodd 8,142 o bobl y cynllun yn 2017-18, ac mae cyfanswm o 24,219 o bobl wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.
- Dysgu gydag awtistiaeth: cwblhaodd 4,516 o staff ar draws pob ystod oedran y cynllun yn 2017-18; 283 yn y blynyddoedd cynnar, 3,474 mewn ysgolion cynradd a 759 mewn ysgolion uwchradd. Mae 7,229 o staff wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.
- Archarwyr awtistiaeth: addawodd 12,386 o bobl i ddod yn archarwyr yn 2017-18 ac, erbyn hyn, mae 18,100 o archarwyr.
- Cynllun iechyd a gofal cymdeithasol: cwblhaodd 609 o oedolion a phlant y cynllun yn 2017-18, ac mae 882 o bobl wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.
- Cynllun hamdden: cwblhaodd 419 o bobl y cynllun yn 2017-18, ac mae 438 o bobl wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.
- Gweithio gydag Awtistiaeth: cwblhaodd 255 o bobl y cynllun yn 2017-18, ac mae 1,010 wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.
- Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth: cwblhaodd 169 o bobl y cynllun yn 2017-18, ac mae 231 o bobl wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn.

3. Yr hyn a ddywedwyd wrthym

3.1 Pan lansion ni'r Cynllun Gweithredu Strategol newydd, aethom ati hefyd i sefydlu gwerthusiad annibynnol i'n helpu ni i asesu'r cynnydd roeddem yn ei wneud a myfyrio ar ble mae angen i ni wneud gwaith pellach. Yr Uned Pobl a Gwaith sy'n cynnal yr adolygiad hwn, gan adeiladu ar y gwerthusiad a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a chyhoeddwyd yr Adroddiad Gwerthuso Interim ym mis Mawrth 2017 (<https://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-integrated-autism-service-autistic-spectrum-disorder-strategic-action-plan/?lang=cy>)

3.2 Mae'r Adroddiad wedi rhoi darlun gwerthfawr o ddatblygiad cynnar y gwasanaeth yn y rhanbarthau cyntaf. Un o'r rhwystrau mwyaf i ddarparu'r gwasanaeth yw argaeledd staff cymwysedig a phrofiadol i ymuno â'r timau ac, i rai rhanbarthau, mae hyn yn cynnwys gallu denu staff i adleoli. Mewn rhai rhanbarthau, mae hyn wedi golygu gorfod addasu'r timau i weddu i amgylchiadau lleol. Mae rhanbarthau'n gorfod ymateb i'r heriau o greu gwasanaeth integredig ar draws gwahanol sectorau ac adeiladu ar wasanaethau presennol. Er enghraifft, yng Ngwent, mae pum awdurdod lleol yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu a darparu'r gwasanaeth.

3.3 Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm gwerthuso ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion y maent wedi'u gwneud. Gan adlewyrchu'r cyngor a ddarparwyd, rydym wedi:

- Gweithio gyda rhanbarthau sy'n dal i ddatblygu IAS i ddysgu gwersi o'r cyfnod cyflwyno cyntaf, megis trafod manteision cydgysylltydd prosiect.
- Sefydlu grŵp swyddogion arweiniol IAS ASD i ddod â phob rhanbarth ynghyd i weithio gyda'i gilydd ar gyflwyno a datblygu IAS yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â'r galw, monitro a chasglu data ac alinio â gwasanaethau eraill sy'n cynnig cymorth i bobl awtistig.
- Parhau â fforwm swyddogion arweiniol ar ASD sy'n dwyn ynghyd awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod gwasanaethau presennol yn gyson ag IAS ac i hyrwyddo cydweithredu.
- Sefydlu bwrdd rhaglen i gefnogi'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD, gan gynnig cymorth a chyngor lefel uchel mewn perthynas â phenderfyniadau allweddol a sicrhau cydbwysedd rhwng dull cenedlaethol ac ymreolaeth leol.

4. Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

4.1 Yn y flwyddyn gyntaf ers cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Strategol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan osod sail gadarn i'r dyfodol. Ein ffocws o hyd yw cyflawni ar y buddsoddiad rydym wedi'i wneud i wella gwasanaethau awtistiaeth fel eu bod yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion pobl awtistig yn y tymor hir.

4.2 Byddwn yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau gyda chymorth Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD, ac rydym yn awyddus i gydgrynhoi'r adnoddau y maent wedi'u datblygu a'u darparu dros y blynyddoedd diwethaf ac i helpu gwasanaethau awtistiaeth, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i barhau i wella trwy ddod ag ymarferwyr ynghyd i rannu arfer da a gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau. Mae'r blaenoriaethau lefel uchel yng nghynllun gwaith Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD ar gyfer 2018/19 ynghlwm yn atodiad dau ac yn cynnwys:

- Mwy o ddefnydd o adnoddau a deunyddiau hyfforddi presennol.
- Hyfforddiant, gan gynnwys datblygu adnoddau newydd.
- Cefnogi datblygiad pellach Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a'u helpu i ennill eu plwyf.
- Hwyluso rhwydweithiau i hyrwyddo cydweithio a dysgu ar y cyd.
- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

4.3 Un ymrwymiad allweddol eleni yw adnewyddu cysylltiadau â phartneriaid a rhanddeiliaid a datblygu strategaeth ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu gyda phobl awtistig. Bydd yna Gynhadledd Awtistiaeth Genedlaethol hefyd a gynhelir mewn partneriaeth â gwasanaethau awtistiaeth eraill i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ac i gefnogi datblygiad gwasanaethau i'r dyfodol.

4.4 Byddwn yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygu dull casglu data ymarferol i fesur effaith gwasanaethau awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull cadarn o fesur canlyniadau gwasanaethau newydd sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl awtistig a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau awtistiaeth.

Deddfwriaeth Awtistiaeth

4.5 Rydym wedi ystyried manteision deddfwriaeth awtistiaeth annibynnol yn ofalus a deallwn mai'r sbardun ar gyfer y cynigion hyn yw cynnal y gwelliannau rydym yn eu gwneud mewn gwasanaethau awtistiaeth yn y tymor hir. Trwy'r Cynllun Gweithredu Strategol a thrwy gyflwyno IAS, rydym yn gweld gwelliannau mawr mewn gwasanaethau ac archwaeth o'r newydd i gydweithio ar draws sectorau. Rydym eisiau canolbwyntio ein sylw ar ddarparu'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl awtistig a'u teuluoedd.

4.6 Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu mai trwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol gostus sy'n defnyddio llawer o adnoddau yw'r ffordd orau o gyflawni gwell

canlyniadau i bobl awtistig, sydd eisoes yn meddu ar yr un hawliau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ag unrhyw ddinesydd arall, trwy ddeddfwriaeth bresennol sy'n cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf y GIG 2006, Deddf Iechyd Meddwl 1983 (a ddiweddarwyd yn 2007) a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 newydd. Mae'r cynigion am ddeddfwriaeth benodol ar gyfer awtistiaeth yr ymgynghorwyd arnynt ond yn gallu amlygu hawliau presennol y gellir eu cyflawni trwy lwybrau eraill.

Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth

4.7 Rydym wedi gwrandao ar alwadau am fwy o sicrwydd ynghylch pa wasanaethau mae pobl awtistig yn gallu cael mynediad atynt o dan ddeddfwriaeth bresennol a thrwy'r diwygiadau rydym yn eu rhoi ar waith. Fel bod pobl awtistig ac asiantaethau darparu gwasanaethau yn deall y cymorth a ddylai fod ar gael, byddwn yn cyhoeddi Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y GIG 2006. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl awtistig, i gytuno ar gwmpas y cod a'r dyletswyddau y dylai eu cynnwys. Bydd y cod yn atgyfnerthu'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn barod ac yn amlinellu sut beth yw arfer da.

Y Cynllun Cyflawni wedi'i Ddiweddarau

4.8 Nid yw'r Cynllun Gweithredu Strategol yn ddogfen sefydlog ac rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Weithredu ASD i ystyried beth arall y gallwn ni ei wneud i wella bywydau pobl awtistig. Rydym yn gweithio ar draws llywodraeth a gyda'n partneriaid i sicrhau gwelliannau pellach hefyd, a byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni wedi'i ddiweddarau yn ddiweddarach eleni. Mae hwn yn debygol o gynnwys cynlluniau i sefydlu cofrestr awtistiaeth ar gyfer meddygon teulu, gwella ac ehangu canllawiau tai Llywodraeth Cymru, datblygu dull ymgysylltu ar y cyd o godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a sicrhau ein bod yn defnyddio dull strategol o hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael a'r adnoddau y gellir cael mynediad atynt am ddim a'r adnoddau.

4.9 Hefyd, ers i ni gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn 2008, mae hi wedi bod yn anodd cyflawni dull ymarferol o gasglu data mewn ffordd sy'n diwallu holl anghenion rhanddeiliaid. Gyda chyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a gwella amseroedd aros i gael asesiad, mae'n hollbwysig bod gennym ni ddarlun clir nid yn unig o faint o bobl sydd ag awtistiaeth a faint sy'n defnyddio gwasanaethau ond, yn bwysicach fyth, yr effaith mae'r gwasanaethau'n ei chael ar wella eu bywydau bob dydd. Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn edrych yn ofalus ar sut rydym yn casglu data ar ganlyniadau ystyrion i'n helpu ni i ddeall ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ac i nodi unrhyw fylchau sy'n parhau yn y cymorth.

Atodiad Un

Aseu a Diagnosis		
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni	Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud	Cynnydd
Mae plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth yn gallu cael gfael yn brydlon ar wasanaethau atgyfeirio, asesu ac ôl-ddiagnosis sy'n diwallu eu hanghenion.	Sicrhau gwelliannau i wasanaethau asesu a diagnosis plant. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno llwybr asesu diagnostig safonol cenedlaethol i sicrhau cysondeb.	<ul style="list-style-type: none"> Ers 2015, mae £2 filiwn o gyllid blynyddol wedi'i ddarparu i sefydlu gwasanaethau niwroddatblygiadol pwrpasol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cynnwys ASD ac ADHD. Mae llwybr diagnostig a gytunwyd yn genedlaethol wedi'i gyhoeddi, ac mae pob bwrdd iechyd wedi mabwysiadu'r llwybr diagnostig cenedlaethol. I gefnogi'r llwybr, disgwylir y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi yn yr haf.

	<p>Gwella'r amser o ran cael gafael ar wasanaethau i blant a phobl ifanc, gyda tharged amser aros o 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf</p> <p>Sicrhau bod cynnydd ac amser asesu a diagnosis yn cael eu monitro'n barhaus. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn systemau cynllunio a rheoli perfformiad ffurfiol byrddau iechyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae safon amser aros o 26 wythnos ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol (ADHD ac ASD) wedi'i chyflwyno, yn unol ag amseroedd aros pediatrig ar gyfer gwasanaethau eraill. • Cychwynnodd cyfnod peilot 12 mis ym mis Tachwedd 2017, mae data'n cael ei adrodd yn fisol a disgwylir i fyrddau iechyd gwblhau 80% o'r apwyntiadau asesu cyntaf o fewn 26 wythnos. Ar ôl y peilot, bydd ansawdd y data'n cael ei asesu ac, os yw'n briodol, fe'i cyhoeddir ar wefan Ystadegau Cymru, lle bydd ar gael i'r cyhoedd.
	Sicrhau gwelliannau i wasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth

	<p>diagnostig oedolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu model cenedlaethol a fydd yn cael ei weithredu ledled Cymru. • Monitro ac adrodd ar gynnydd yn barhaus yn erbyn y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. 	<p>Integredig wedi lansio ym Mhowys, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Gwent, a bydd ar gael yn y Gogledd cyn hir ac yn y Gorllewin a Bae'r Gorllewin erbyn diwedd y flwyddyn weithredol hon.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae IAS yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn chwarterol. Mae IAS yn datblygu safonau gwasanaeth i fod yn sail i gasglu data monitro. • Cyfarfodydd chwarterol â swyddogion arweiniol IAS i drafod cynnydd a rhannu arfer gorau. • Mae cymuned ymarfer diagnostig i oedolion wedi'i sefydlu i gefnogi gwelliannau i wasanaethau diagnostig. • Mae safon amser aros i oedolion yn cael ei datblygu a bydd gwersi a ddysgwyd o'r peilot amseroedd aros i blant yn llywio sut y bydd y data ar amseroedd aros yn cael ei gasglu ar gyfer oedolion.
	<p>Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar gynnydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiadau chwarterol trwy'r Gronfa Gofal Integredig • Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â phob rhanbarth IAS ym mis Ionawr a mis Chwefror 2018 i drafod cynnydd a materion.

Mynd i'r afael ag Anghenion Cymorth		
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni	Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud	Cynnydd
<p>Gall plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalmwyr gael gafael ar wasanaethau cyngor ac ataliol i ddiwallu angen sydd heb ei ddiwallu mewn addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol.</p>	<p>Cyflwyno diwygiad deddfwriaethol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ym mis Rhagfyr 2016 a monitro cynnydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan y Cynulliad ar 12 Rhagfyr 2016, a daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol. • Bydd cyfnod gweithredu o dair blynedd yn cychwyn ym mis Medi 2020, gan ddefnyddio dull graddol gorfodol. Bydd dysgwyr â datganiadau yn barod yn trosglwyddo i'r system newydd o fewn dwy flynedd, a dysgwyr eraill â chynlluniau anstatudol o fewn tair blynedd. • Bydd y system Anghenion Addysgol Arbennig bresennol wedi'i dileu erbyn haf 2023.
	<p>Parhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglen 'Dysgu gydag Awtistiaeth' i wella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar draws y sectorau blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac addysg bellach</p>	<p>Ym mis Ebrill 2018, roedd y rhaglenni canlynol wedi'u cyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Rhaglen y blynyddoedd cynnar</u>: Mae 283 o staff wedi cwblhau'r rhaglen, ac mae 9 lleoliad wedi ennill tystysgrif • <u>Rhaglen Ysgolion Cynradd</u>: Yn 2017-18, cwblhaodd 1,568 o staff addysgu a 1,906 o staff cymorth dysgu y cynllun. Mae cyfanswm o 6,470 wedi cwblhau'r cynllun ers iddo gychwyn yn 2016. • Mae 80 o ysgolion wedi ennill y dystysgrif dyfarniad ysgol gyfan.

		<ul style="list-style-type: none"> • <u>Ysgolion uwchradd</u>: Mae 759 o athrawon wedi cwblhau'r cynllun ac ychydig dros 3,747 o ddisgyblion wedi llofnodi'r addewid disgybl. Mae 3 ysgol wedi gwneud cais llwyddiannus am eu dyfarniadau.
	<p>Gwella cyfleoedd i bobl ag awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o ddarparu rhaglen Ar y Blaen 2 i gefnogi cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu yn cynnwys ASD</p>	<p>Cynnydd hyd at fis Mawrth 2018:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Proffilio galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc: Targed: 435 o bobl ifanc, Gwirioneddol: 211 (49%) • Sgiliau cyflogadwyedd newydd: Targed: 348 Gwirioneddol: 263 (76%) • Gwirfoddoli/lleoliadau di-dâl: Targed: 425, Gwirioneddol: 159 (37%) • Lleoliadau am dâl a gychwynnwyd: Targed: 190 Gwirioneddol: 102 (54%) • Cyflogaeth gynaliadwy mwy tymor hir: Targed: 77 Gwirioneddol: 22 (29%) • Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chynllun Cyflogadwyedd, sy'n cynnwys ymrwymiad i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n rhoi pwyslais ar greu gweithleoedd sy'n amgylcheddau cynhwysol a chefnogol ar gyfer pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd tymor hir. • Bydd Llywodraeth Cymru'n gwerthuso rhaglen Cymru lach ar Waith ac yn annog mwy o gyflogwyr i ddarparu mynediad at wasanaethau iechyd

	<p>Llywodraeth Cymru i gymryd camau i ddod yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth</p>	<p>meddwl i gefnogi'r rhai sy'n wynebu risg o adael eu gwaith oherwydd iechyd corfforol neu feddyliol gwael.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cymorth ASD ar gyfer cydweithwyr a all fod ar y sbectrwm awtistig, rheolwyr a all fod â rhywun ag awtistiaeth yn eu tîm neu staff a all fod ag aelodau o'r teulu ag awtistiaeth. Mae'r grŵp hwn yn cael ei noddi'n anffurfiol ar lefel uwch reolwyr. • Mae'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD wedi darparu hyfforddiant i weithwyr AD proffesiynol yn Llywodraeth Cymru. • Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddod yn sefydliad sy'n ymwybodol o ASD, i ddatblygu rhaglen ar weithio gydag awtistiaeth ac i gyflawni achrediad i'r Siarter Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth. • Mae hyfforddiant pellach i reolwyr llinell yn cael ei ystyried o dan Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Iechyd a Llesiant Llywodraeth Cymru • Mae Pecyn Cymorth Iechyd, Gwaith a Llesiant Llywodraeth Cymru yn cyfeirio staff at wasanaethau cymorth allanol ASD. Bydd gwefan ASDinfowales yn cael ei hychwanegu at y Pecyn Cymorth.
--	---	--

	<p>Gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ac iddynt ddod yn amgylcheddau gwaith ystyriol o awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Rhaglen Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth</p>	<p>Ym mis Ebrill 2018, adroddodd CLILC y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 1,010 o bobl wedi cwblhau'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth, gyda 255 o bobl wedi cwblhau'r cynllun yn 2017-18 • Mae 231 o bobl wedi cwblhau'r cynllun Brwd am Weithio gydag Awtistiaeth, gyda 169 o bobl wedi cwblhau'r cynllun yn 2017-18
	<p>Darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2016 dros gyfnod o dair blynedd ac yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu gwasanaeth asesu diagnostig safonol i oedolion • Darparu cyngor a chymorth i bawb ag awtistiaeth, yn cynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr • Datblygu pecynnau hyfforddi a chymorth pellach i weithwyr proffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwasanaeth ar agor yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent a Phowys, bydd yn lansio yn y Gogledd ym mis Mehefin a bydd yn agor yn y Gorllewin a Bae'r Gorllewin y flwyddyn weithredol hon. • Mae grŵp penaethiaid IAS wedi'i sefydlu i ddatblygu llwybrau a safonau canlyniadau cenedlaethol i adrodd ar gynnydd. • Mae cymuned ymarfer diagnostig clinigol i oedolion wedi'i sefydlu i wella ymarfer diagnostig yng Nghymru. • Mae pecynnau cymorth yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ar gyfer gweithwyr proffesiynol, er enghraifft, hyfforddiant iechyd meddwl.

Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni	Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud	Cynnydd
<p>Pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd da ar awtistiaeth sy'n diwallu eu hanghenion.</p>	<p>Sicrhau bod pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr, y ogystal â gweithwyr proffesiynol, yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfowales.</p> <p>Datblygu strategaeth gyfathrebu yn nodi camau gweithredu penodol erbyn diwedd Ionawr 2017.</p>	<p>Mae'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ynghlwm a, hyd at fis Ebrill 2018, mae wedi cyflawni'r canlynol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Denodd gwefan ASDinfowales 112,008 o ymwelwyr dros gyfnod o 12 mis. • Ymwelwyd â 509,058 o dudalennau ar draws y wefan dros gyfnod o 12 mis • Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ym mhob rhanbarth yn ymgysylltu â'i gymuned leol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael. • Mae'r tîm wedi parhau i chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ar y wefan, er enghraifft, cael stondin yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2017 a mynychu cynadleddau awtistiaeth. • Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda CLILC i ddatblygu strategaeth ymgysylltu i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael ac yn gwneud cyfraniad gweithredol at ddatblygu adnoddau i'r dyfodol.

	<p>Parhau i ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer meysydd blaenoriaeth a nodwyd, i fod ar gael am ddim ar wefan ASDinfowales. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n flynyddol.</p>	<p>Mae adroddiad blynyddol Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD yn atodiad dau, ac mae'n darparu gwybodaeth fanwl am ganlyniadau a gyflawnwyd. Mae adnoddau a ddatblygwyd yn ystod 2017 yn cynnwys:</p> <p>Dysgu gydag awtistiaeth – rhaglen blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys ffilmiau hyfforddi i staff, canllaw ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, adnoddau hunanwerthuso ar gyfer lleoliadau gofal plant, adnoddau cymorth megis proffiliau plant, cardiau lluniau i blant a chardiau ciw.</p> <p>Adnoddau Ble Mae Teifi i ddisgyblion, sef ffilm wedi'i hanimeiddio ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar.</p> <p>Dysgu gydag awtistiaeth – rhaglen ysgolion uwchradd</p> <p>Weli Di Fi? – ymgyrch codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau</p> <p>Mae cynllun gwaith y tîm ar gyfer 2018/19 yn atodiad dau. Mae adnoddau i'w datblygu yn 2018 yn cynnwys:</p> <p>Hyfforddiant rheoli ymddygiad ar gyfer rhieni/gweithwyr proffesiynol.</p> <p>Adnoddau newydd i gynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o iechyd meddwl ac awtistiaeth sy'n cyd-ddigwydd ymhlith Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Rhaglen mynediad at hamdden - oedolion</p> <p>Parhau i ddatblygu cymorth ôl-ddiagnostig ar</p>
--	---	--

		gyfer rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc awtistig. Rhaglen Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith. Parhau i wella adnoddau blynyddoedd cynnar trwy ymgyrch “Ble Mae Teifi?”.
	Datblygu a darparu adnoddau a deunyddiau hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol ac eraill sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion ag awtistiaeth. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n flynyddol.	Yn ei adroddiad blynyddol, mae Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD yn nodi, hyd at fis Ebrill 2018: <ul style="list-style-type: none"> • Bod 438 o bobl wedi cwblhau'r cynllun mynediad at chwaraeon a hamdden, gyda 419 yn cwblhau'r cynllun yn 2017-18 • Bod 882 o bobl wedi cwblhau'r Cynlluniau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion a Phlant), gyda 609 o oedolion a phlant yn cwblhau'r cynllun yn 2017-18.
	Cydweithio â sefydliadau eraill sy'n ymdrin â materion nad ydynt wedi'u datganoli i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân, y llysoedd a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr.	Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (yr hen Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr) i gynnwys adran yn y Cod Ymarfer arfaethedig ar gefnogi pobl awtistig yn yr ystâd ddiogeled.
	Parhau i gefnogi'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD a'r tîm i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid.	Mae Tîm Arweiniol Cenedlaethol CLILC yn parhau i gael ei gefnogi, mae adroddiad blynyddol y tîm ar gyfer 2017/18 yn atodiad dau ac mae cynllun gwaith 2018/19 yn atodiad dau.

Cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu		
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni	Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud	Cynnydd
Bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofaluwr yn cael eu cynnwys a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol	Sefydlu grŵp cynghori ar weithredu i fonitro cynnydd a'r gwaith o gyflawni camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Cyflawni. Bydd y grŵp hwn yn cael ei sefydlu cyn 1 Ebrill 2017.	<ul style="list-style-type: none"> Mae Bwrdd Cynghori ar Weithredu ASD wedi'i sefydlu, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2017 ac mae wedi cyfarfod 5 gwaith hyd at fis Mai 2018.
	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis.	Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol ym mis Mehefin 2018; mae'n cynnwys gwybodaeth am y safon amser aros ASD ar gyfer plant a phobl ifanc.
	Sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis.	Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu adroddiadau chwarterol ar y Gronfa Gofal Integredig sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.
	Casglu gwybodaeth am nifer y bobl ag awtistiaeth sydd â chynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith casglu data gwasanaethau cymdeithasol newydd o fis Ebrill 2017.	Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu dull casglu data sy'n canolbwyntio ar effaith a chanlyniadau ynghyd â gweithgarwch. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynlluniau yn yr hydref a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r dull casglu data ar awtistiaeth sy'n diwallu anghenion gwasanaethau awtistiaeth, gan gynnwys y trydydd sector.
	Cynnal gwerthusiad annibynnol o'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Ionawr 2018 Dylai'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi erbyn gwanwyn 2019.
	Monitro gweithrediad y gofynion deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> Mae Llywodraeth Cymru'n monitro datblygiadau mewn perthynas â

	<p>Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac adolygu'r angen am ddeddfwriaeth bellach ar awtistiaeth.</p>	<p>datblygu'r Bil Awtistiaeth Aelod Preifat arfaethedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Cod Ymarfer yn 2019 yn amlinellu dyletswyddau'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Awtistiaeth
--	--	--

Atodiad Dau

Tîm Datblygu Cenedlaethol ASD – cynllun gwaith 2018/19

1. Cynyddu'r defnydd o adnoddau a deunyddiau hyfforddi presennol

- 1.1 Cefnogi defnydd cynyddol o ddeunyddiau cymorth a hyfforddi ASD a ddatblygwyd gan y Tîm Datblygu Cenedlaethol mewn partneriaeth e.e. Dysgu gydag Awtistiaeth, Gweithio gydag Awtistiaeth a Weli Di Fi?
- 1.2 Gwneud addasiadau angenrheidiol i adnoddau a deunyddiau, gan ystyried adborth gan randdeiliaid a'r rhai sydd wedi defnyddio'r adnoddau.
- 1.3 Parhau i gynnal a datblygu gwefan ASDinfoWales fel adnodd annatod ar gyfer plant awtistig, unigolion awtistig, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.
- 1.4 Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.
- 1.5 Cwblhau'r pecyn adnoddau Gwasanaethau Brys.
- 1.6 Cefnogi Hyfforddiant Iechyd Meddwl i Oedolion.
- 1.7 Cwmpasu gwerthusiad o'r cynllun Dysgu gydag Awtistiaeth.

2. Hyfforddiant, gan gynnwys datblygu adnoddau newydd

- 2.1 Datblygu adnoddau newydd yn ymwneud â hyfforddiant rheoli ymddygiad ar gyfer rhieni/gweithwyr proffesiynol.
- 2.2 Datblygu adnoddau newydd mewn perthynas â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o gyflyrau iechyd meddwl ac awtistiaeth sy'n cyd-ddigwydd ymhlith Plant a Phobl Ifanc (o fewn CAMHS a thimau Addysg / Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – gwaith Powys).
- 2.3 Datblygu rhaglen mynediad at hamdden – oedolion.
- 2.4 Parhau i ddatblygu cymorth ôl-ddiagnostig ar gyfer rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc awtistig.
- 2.5 Datblygu rhaglen Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith.
- 2.6 Adolygu a datblygu cymorth ôl-ddiagnostig priodol i Oedolion.
- 2.7 Parhau i wella adnoddau blynyddoedd cynnar trwy ymgyrch "Ble Mae Teifi?".

3. Cefnogi datblygiad pellach Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a'u helpu i ennill eu plwyf

- 3.1 Parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu IAS yn effeithiol ledled Cymru.
- 3.2 Adolygu a diweddarau'r canllawiau ar gyfer IAS.
- 3.3 Datblygu a chefnogi'r gwaith o weithredu system monitro data/perfformiad.
- 3.4 Adolygu Fframwaith Adrodd y Gronfa Gofal Integredig.
- 3.5 Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o IAS ledled Cymru.

4. Hwyluso Rhwydweithiau

- 4.1 Hwyluso Fforwm Swyddogion Arweiniol Cenedlaethol ar ASD.
- 4.2 Hwyluso Rhwydwaith Cenedlaethol ASD.
- 4.3 Datblygu a sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer diagnosis i oedolion a rhoi IAS ar waith.
- 4.4 Ymgysylltu â darparwyr tai er mwyn amlygu materion penodol i'w hystyried wrth ddarparu tai i bobl awtistig (sector tai cymdeithasol a PRS) a sicrhau bod darparwyr tai yn gallu diwallu anghenion penodol pobl awtistig.

5. Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru

- 5.1 Datblygu strategaeth ymgysylltu, gyda ffocws ar gyd-gynhyrchu.
- 5.2 a. Cefnogi datblygiad Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflawni awtistiaeth yng Nghymru a gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i roi gofynion y Cod ar waith pan gaiff ei gyhoeddi.
b. Cadw golwg ar gynnydd y Bil Awtistiaeth arfaethedig a chefnogi ei ddatblygiad, os yw'n briodol, trwy amlygu'r gwaith parhaus cadarnhaol ar awtistiaeth ledled Cymru.
- 5.3 Sefydlu a hwyluso bwrdd cynghori/trefniadau llywodraethu newydd i oruchwylio gwaith y Tîm Datblygu Cenedlaethol ac i sbarduno gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer ASD.
- 5.4 Datblygu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer awtistiaeth yng Nghymru.
- 5.5 Cefnogi a galluogi datblygiad cysylltiadau cryfach rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gwaith parhaus ar lefelau lleol a rhanbarthol ar awtistiaeth.
- 5.6 Cysylltu rhagor â sectorau eraill i godi ymwybyddiaeth o IAS a sicrhau bod cefnogaeth ac ymrwymiad ar lefel uchel i gyfrannu at waith ar awtistiaeth fel sy'n briodol.
- 5.7 Cydgysylltu Cynhadledd Awtistiaeth Cymru mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- 5.8 Cefnogi trefniadau Cyfnewid Arfer Da Cenedlaethol, Ewropeaidd a Rhyngwladol.

